

- 1 Rheswm Dros Y Cyfrifiad:** Y rheswm y cafodd y datganiad ar Ostyngiad y Dreth Gyngor ei gynhyrchu.
- 2 Manylion Incwm Wythnosol:** manylion sydd gennym ni o incwm wythnosol eich aelwyd. Dylai'r adran hon ddangos yr holl incwm a budd-daliadau ar gyfer eich aelwyd
- 3 Treuliau:** os oes gennych gostau gofal plant byddant yn cael eu dangos yma.
- 4 Cyfeirnod yr Hawliad:** i'n helpu i ymdrin ag ymholiadau'n gyflym, dyfynnwch gyfeirnod eich hawliad bob tro y byddwch yn cysylltu â ni os gwelwch yn dda.
- 5 Cyfeirnod y Dreth Gyngor:** Dyfynnwch y rhif hwn os byddwch yn cysylltu ag Adran y Dreth Gyngor os gwelwch yn dda.
- 6 Incwm Dros Ben:** Mae cyfanswm eich lwfans byw yn cael ei ddiynnu o gyfanswm eich incwm wythnosol i roi "Incwm Dros Ben" eich aelwyd at ddibenion cyfrifiadau ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor.
- 7 Cyfnod Y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor:** Y cyfnod y mae'r cyfrifiad hwn ar gyfer gostyngiad yn berthnasol iddo ar eich bil.
- 8 Cyfalaf:** Dylai fod y symiau eitemedig o gyfalaf sydd gennych ar yr adeg yr anfonir y llythyr yn cael eu dangos yma, e.e. eiddo, cyfranddaliadau, cynilon a.y.b.
- 9 Namyn didyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion:** Bydd symiau unrhyw ddiyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion yn cael eu didynnu o'ch treth gyngor wythnosol gymwys wrth gyfrifo Gostyngiad y Dreth Gyngor.
- 10 Treth Gyngor Wythnosol Gymwys:** Swm y Dreth Gyngor a godir arnoch yn flynyddol wedi'i drosi'n swm wythnosol yw hwn.
- 11 Sut y caiff eich gostyngiad ei gyfrifo:** Mae hyn yn dangos sut y cyfrifwyd eich hawl i Ostyngiad y Dreth Gyngor, gam wrth gam.
- 12 Cyfanswm Lwfans Byw:** Dyma'r swm o arian y gall cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ei ganiatáu ar eich cyfer chi (a'ch teulu), i chi gael safon byw sylfaenol ar ôl ystyried costau'r aelwyd. Mae'r cyfanswm Lwfans Byw a gyfrifwyd yma yn cael ei ddefnyddio wedyn yn y cyfrifiad, y gallwch ei weld dan y pennawd "Sut y caiff eich gostyngiad ei gyfrifo.
- 13 % Berthnasol o'r Incwm Dros Ben:** Dim ond canran o'r Incwm Dros Ben a ddefnyddir yn y cyfrifiad ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor. Pennwyd canran berthnasol o 20% gan reolau'r cynllun.
- 14 Swm y gostyngiad a gyfrifwyd:** Dyma ganlyniad terfynol y cyfrifiad ac mae'n dangos y swm wythnosol o ran Gostyngiad y Dreth Gyngor sy'n ddyledus i chi. Gellir gweld swm y gostyngiad am y cyfnod wedyn hefyd ar eich Bil treth gyngor.
- 15 Namyn 20% o Incwm Dros Ben:** Bydd y ganran berthnasol o'ch incwm dros ben yn cael ei didynnu o'r Dreth Gyngor wythnosol gymwys hefyd wrth gyfrifo eich gostyngiad.